# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Chwefror 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 321(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Clyw fy nghân: Ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw

(30 munud)

**NDM7575** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Clyw fy nghân: ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2020.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cefnogaeth i ofal lliniarol yn ystod y pandemig

(30 munud)

**NDM7581** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cofnodi 37,403 o farwolaethau yng Nghymru yn 2020.

2. Yn cydnabod effaith y pandemig COVID-19 ar y rhai sy'n darparu gofal diwedd oes a'r rhai sydd â salwch angheuol a'u hanwyliaid, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau'r coronafeirws ar ymweliadau ag ysbytai, hosbisau a chartrefi gofal.

3. Yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol gofal lliniarol o ansawdd uchel a gwasanaethau cymorth profedigaeth o dan amgylchiadau o'r fath.

4. Yn nodi pryderon Coleg Brenhinol Nyrsys Cymru o ran nyrsys yn bod yn flinedig, o dan straen a bron ac wedi'u gorweithio'n llwyr oherwydd y pandemig a'r pwysau ychwanegol o ddarparu gofal diwedd oes.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) parhau i adolygu'r canllawiau sy'n gysylltiedig ag ymweliadau ag ysbytai, hosbisau a chartrefi gofal, fel bod teuluoedd a gweithredwyr yn gallu galluogi cyswllt diogel a thosturiol yn ystod gofal diwedd oes;

b) sicrhau bod y rhai sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes, yn ogystal â'u hanwyliaid, yn gallu cael gafael ar ofal a chymorth emosiynol o ansawdd uchel;

c) cynyddu'n sylweddol y cymorth ariannol ar gyfer gofal lliniarol a gwasanaethau cymorth profedigaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf i ddiwallu'r anghenion cynyddol a mwy cymhleth sy'n deillio o'r pandemig;

d) gweithredu cynllun hirdymor i gefnogi nyrsys a staff gofal i ddelio â straen wedi trawma a materion iechyd meddwl a achosir gan y gofyniad cynyddol am ofal lliniarol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

(e) mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal diwedd oes da.

## 7 Dadl Plaid Cymru – Cyllido'r Llyfrgell Genedlaethol

(30 munud)

**NDM7580** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at y ffaith y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cael ei gorfodi i dorri swyddi a chwtogi'n ddifrifol ar wasanaethau heb fwy o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ar frys y cyllid annigonol a ddyrannwyd i'r Llyfrgell Genedlaethol yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2022 a darparu setliad ariannu cynaliadwy i'r Llyfrgell Genedlaethol a fydd yn diogelu'r gweithlu presennol ac yn caniatáu i'r llyfrgell ehangu ei gwaith hanfodol ar gyfer y dyfodol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru wrthi'n cynnal ymgynghoriad a bod Llywodraeth Cymru'n parhau mewn trafodaeth barhaus â nhw i asesu pob opsiwn posibl.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliant 2 a gyflwynwyd i'r cynnig.**

**Gwelliant 3** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r dystiolaeth awdurdodol a ddarparwyd yn yr adolygiad teilwredig a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru nad yw'r Llyfrgell Genedlaethol yn cael y lefel o gyllid sydd ei hangen arni ar hyn o bryd i ddarparu ei gwasanaethau craidd.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7577** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Pam nad ydym yn caru ieithoedd rhyngwladol?

Sylwadau ar ddysgu ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru a rôl y prosiect mentora myfyrwyr ieithoedd tramor modern.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2021

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 27/01/2021 i'w hateb ar 03/02/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR AMGYLCHEDD, YNNI A MATERION GWLEDIG

1

**David Melding** *Canol De Cymru*

OQ56225

**(e)**

Pa fesurau sydd ar waith i hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yng Nghymru?

2

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

OQ56206

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli'r risg o lifogydd yn Rhuthun?

3

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

OQ56228

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol?

4

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

OQ56234

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu'r economi wledig yn ystod y pandemig?

5

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ56207

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith Storm Christoph ym Mancot, Sandycroft a chymunedau cyfagos?

6

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

OQ56223

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ymadael â’r Undeb Ewropeaidd ar y sector bwyd môr yng Nghymru?

7

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56219

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu niferoedd pryfed yng Nghymru?

8

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

OQ56215

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o benderfyniad Llywodraeth y DU i awdurdodi defnyddio plaladdwyr neonicotinoid?

9

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ56203

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion i wella lles cathod a chŵn yng Nghymru?

10

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

OQ56231

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau nifer y troseddau amgylcheddol yn Islwyn?

11

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

OQ56236

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fentrau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol?

12

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ56213

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu'r amgylchedd yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

## Y GWEINIDOG TAI A LLYWODRAETH LEOL

1

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

OQ56226

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghanol De Cymru?

2

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

OQ56216

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o lefelau staff awdurdodau lleol sydd ar gael i

ddarparu gwasanaethau allweddol ledled Cymru yn ystod y pandemig COVID-19?

3

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ56212

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o’r ôl-ddyledion rhent sydd wedi cronni yng Nghaerdydd ers dechrau pandemig y coronafeirws?

4

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

OQ56229

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch defnyddio llety brys i bobl ddigartref yn ystod y pandemig?

5

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ56222

**(e)**

Pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i gynyddu’r cyflenwad o dai fforddiadwy yn ne-ddwyrain Cymru?

6

**David Melding** *Canol De Cymru*

OQ56224

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu’r diwydiant tai yn ystod y cyfyngiadau symud COVID-19?

7

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

OQ56237

**(e)**



A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth tai i gymunedau ym Mlaenau'r Cymoedd yn y

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth tai i gymunedau ym Mlaenau'r Cymoedd yn y cyfnod ar ôl COVID-19?

8

**Lynne Neagle** *Torfaen*

OQ56235

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn meithrin cydnerthedd o fewn gwasanaethau diogelu'r cyhoedd ym maes llywodraeth leol?

9

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

OQ56205

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwerthusiad o Rhentu Doeth Cymru?

10

**Leanne Wood** *Rhondda*

OQ56208

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch sicrhau bod gweithwyr awdurdodau lleol yn cael gwared ar gyfarpar diogelu personol ac eitemau gwastraff risg COVID-19 eraill yn ddiogel?

11

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

OQ56209

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â darparwyr tai cymdeithasol am y ffordd orau o gefnogi eu tenantiaid yn ystod pandemig y coronafeirws?

12

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56221



**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau'r ôl troed carbon wrth adeiladu tai yng Nghymru?